## IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU (DWYFOR) 27-01-12

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Robert J. Wright, (Cadeirydd Pwyllgor Ardal Dwyfor)
Y Cynghorydd Selwyn Griffiths, (Is-gadeirydd Pwyllgor Ardal Dwyfor)

Y Cynghorwyr: Glyn Roberts, Sion Selwyn Roberts ac R. H. Wyn Williams.

**Hefyd yn bresennol:** Sion Huws, (Swyddog Priodoldeb) Amlyn ab Iorwerth, (Rheolwr Trwyddedu), Alwyn Thomas, (Swyddog Gorfodi Trwyddedau) ac Ioan Hughes, (Swyddog Pwyllgor).

**Eraill yn bresennol**: Mr K (perchen cerbydau hurio preifat mewn cysylltiad â'r eitem eithriedig)

**Dymuniadau da:** Croesawodd y Cadeirydd y Swyddog Gorfodi Trwyddedau, a oedd wedi dioddef cyfnod o waeledd, gan ddymuno adferiad llwyr a buan iddo. Ategwyd y sylwadau gan y Rheolwr Trwyddedu.

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr:Alwyn Gruffydd ac Ieuan Roberts

### 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

### 2. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei bod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12, Rhan 4,Atodlen 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraffau yma yn berthnasol oherwydd bod gan yr unigolyn dan sylw'r hawl i breifatrwydd ac nad oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n gofyn am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolyn nac am ei faterion ariannol a busnes. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus o gadw'r wybodaeth yn eithriedig yn gorbwyso'r budd cyhoeddus o'i datgelu.**

### 3. I YSTYRIED SEFYLLFA GWEINYDDWR HURIO

a) Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu mewn cysylltiad ag achos Mr K, sy'n ddeilydd trwydded hurio preifat.

b) Atgoffwyd aelodau fod yr Is-bwyllgor Trwyddedu hwn, mewn cyfarfod ar 23 Tachwedd, 2011 wedi penderfynu, peidio diddymu nac atal trwydded Mr K. Bryd hynny 'roedd Mr K yn ymddangos gerbron yr Is-bwyllgor oherwydd methiant i gydymffurfio â Pholisiau ac Amodau Gweithredwr Hurio Preifat.

   Yn ogystal â pheidio diddymu nac atal trwydded Mr K, penderfynwyd bod trefniant yn cael ei wneud iddo gadw mewn cysylltiad wythnosol gyda'r

Swyddogion Trwyddedu i'w diweddaru ar y sefyllfa ac i gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddyd fyddai'n cael ei roi ganddynt.

c) Adroddodd y Rheolwr Trwyddedu fod Mr K wedi cydweithio'n dda gyda'r Swyddog Gorfodi Trwyddedau ers y cyfarfod diwethaf gan gysylltu'n wythnosol a a mynychu cyfarfod wyneb yn wyneb l ar 9 Ionawr, 2012.

   Nodwyd ymhellach fod Mr K yn y broses o werthu rhai o'i gerbydau a'i fod bellach yn berchen ar 10 cerbyd, gyda phump oddi ar y ffordd a phump yn gweithio. Cyflwynwyd manylion ynglŷn â'r cerbydau i'r aelodau.

ch) Yn sgil y gwelliant yn y sefyllfa, awgrymodd y Rheolwr y gellid ymestyn y trefniant presennol am dri mis.

d) Cadarnhaodd y Swyddog Gorfodi Trwyddedu fod Mr K. wedi cydweithio'n dda gydag ef ers y cyfarfod diwethaf. Ychwanegodd fod Mr K. yn ystyried dyfodol y busnes ac y byddai ymestyn y drefn bresennol yn ei gwneud yn bosib i'r Uned Drwyddedu ei gynorthwyo pe byddai angen.

dd) Mewn ymateb i ymholiad gan aelod, dywedodd Mr K. fod y gwaith papur mewn cysylltiad â'r cyfan o'i gerbydau yn gywir ar hyn o bryd. Ychwanegodd ei fod wedi bod gyda 40 o gerbydau yn y gorffennol ond ei fod bellach yn ystyried dirwyn y busnes i ben, er nad oedd wedi gwneud penderfyniad terfynol.

**PENDERFYNWYD:**

**a) Bod y trefniant presennol, gyda Mr K yn cadw mewn cysylltiad wythnosol gyda'r Swyddogion Trwyddedu, yn cael ei ymestyn am dri mis er caniatau amser i Mr K benderfynu ar ddyfodol ei fusnes.**

**b) Bod y Gwasanaeth Trwyddedu, ar derfyn y cyfnod o dri mis yn cysylltu gyda Chadeirydd yr Is-bwyllgor hwn er mwyn ystyried yr angen i gynnal cyfarfod pellach.**

Dechreuodd y cyfarfod am 1:40pm a daeth i ben am 1:45 pm